**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1327
Ein cyf/Our ref DB/00180/23
Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

28 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2023 ynglŷn â Deiseb P-06-1327: Amwynderau Canolfan Hamdden am ddim i blant.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian, drwy Chwaraeon Cymru, i awdurdodau lleol gynnig nofio am ddim i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau. Mae'r cynllun yn darparu sesiwn sblash am ddim bob penwythnos ym mhob pwll a dwy sesiwn ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf. Hefyd, mae awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i annog pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig i gymryd rhan yn y cynllun Nofio am Ddim - i gael hwyl, dysgu sgil bywyd ac i fwynhau manteision corfforol a meddyliol ffordd o fyw egnïol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru hefyd £7m o gyllid unigol tuag at yr Haf o Hwyl 2022, a oedd yn rhan o'n pecyn cymorth ehangach i helpu gyda'r argyfwng costau byw sy'n wynebu teuluoedd ledled Cymru. Adeiladodd y fenter ar lwyddiant Haf o Hwyl blaenorol 2021 a'r Gaeaf Lles, a oedd hefyd yn fentrau ariannu untro gyda'r nod o adfer o bandemig Covid-19.

Nod Haf o Hwyl 2022 oedd rhoi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc 0–25 oed yng Nghymru gael mynediad at weithgareddau am ddim i gefnogi eu datblygiad a'u lles. Mae ymgysylltu pellach â gweithgareddau chwarae, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol mewn ystod eang o leoliadau, gan gynnwys canolfannau hamdden, wedi galluogi plant a phobl ifanc i barhau â'u hadferiad o gyfyngiadau'r pandemig, gyda'r fantais ychwanegol o gefnogi teuluoedd gyda chostau gweithgareddau dros gyfnod gwyliau'r haf.

Cefnogodd y rhaglen hawl cyffredinol i weithgareddau chwarae, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol am ddim ar bwynt mynediad i bob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed i helpu tuag at leihau costau byw teuluoedd ledled Cymru. Roedd hefyd yn cefnogi lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sy'n cymryd rhan, gan eu galluogi i ymgysylltu'n well â dysgu ac ail-gysylltu â'r gymdeithas ehangach yn dilyn pandemig Covid-19.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyflwynwyd gweithgareddau rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022 yn gynhwysol. Cafodd £5.5 miliwn o gyllid ei sianelu drwy awdurdodau lleol ar draws Cymru, gyda'r £1.5 miliwn sy'n weddill yn cael ei ddyrannu rhwng nifer o sefydliadau gyda hanes o weithio gyda plant a phobl ifanc. Y gobaith yw bod y cyllid hwn wedi rhoi cynaliadwyedd pellach i'r darparwyr sy'n gweithredu yn y maes hwn, i symud tuag at  fwy cynaliadwy yn ariannol ac o ran yr hyn y gallant ei gynnig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip